



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

LLEOL, CENEDLAETHOL A BYD-EANG: Gweithdy ar ariannu treftadaeth

Stephen Barlow, Pennaeth Ymgysylltu: Cymru, [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol](#), a Dr Jamie Davies, Rheolwr Partneriaethau Rhyngwladol ac Ymgysylltu, [Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau](#)

Nod y gweithdy hwn yw darparu gorolwg o'r cyfleoedd ariannu treftadaeth sy'n cael eu cynnig gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Bydd y gweithdy'n cynnwys cyflwyniadau gan Stephen Barlow (Pennaeth Ymgysylltu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru) a Dr Jamie Davies (Rheolwr Partneriaethau Rhyngwladol ac Ymgysylltu Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau ac aelod o bwyllgor Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru).

Gofynnir i'r rheiny sy'n cymryd rhan yn y gweithdy fyfyrir ar eu profiad o wneud ceisiadau i'r cyllidwyr hyn, ystyried enghreifftiau o arfer gorau mewn prosiectau treftadaeth ddigidol a ariennir ganddynt, a gofyn cwestiynau i'r cyllidwyr ac i wneuthurwr penderfyniadau am gyfleoedd ac am y broses gwneud penderfyniadau.

Bywgraffiad

Dechreuodd Stephen ei yrfa gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL), fel yr oedd bryd hynny, lawer o flynyddoedd yn ôl, ac mae ganddo brofiad helaeth o weinyddu grantiau, cefnogi datblygu prosiectau, a chynghori ar geisiadau am gyllid. Yn ei swydd bresennol fel Pennaeth Ymgysylltu Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru, mae'n arwain tîm sy'n helpu ymgeiswyr i ddatblygu prosiectau a gwneud cais am arian ac yn rheoli perthnasoedd â rhanddeiliaid a chyfathrebiadau allanol.

Rheolwr Partneriaethau Rhyngwladol ac Ymgysylltu gyda Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yw Jamie. Dechreuodd wirfoddoli yn Amgueddfa Môr Llŷn yng Ngogledd-orllewin Cymru pan oedd yn 17 oed a daeth yn aelod o'r pwyllgor ac ymddiriedolwr yn ddiweddarach, gan helpu i ailagor yr amgueddfa yn 2014. Mae ef hefyd yn aelod o bwyllgor Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru ac yn ymddiriedolwr Europa Nostra UK. Rhwng 2016 a 2018 roedd yn gymrawd addysgu mewn treftadaeth ddiwylliannol yn Sefydliad Rhyngwladol Ironbridge, Prifysgol Birmingham. Mae gan Jamie BA mewn Archaeoleg a gradd Meistr mewn Rheolaeth Treftadaeth Ddiwylliannol Ryngwladol gan Brifysgol Durham, a Doethuriaeth ar Addysg mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd gan Sefydliad Ironbridge.